| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **24 Chwefror 2026** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2026/27** |
| **PWRPAS** | **Argymell y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27 i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu** |
| **AWDUR** | **Annes Sion**<br>**Arweinydd Tîm Democratiaeth** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2026/27 er eich sylwadau cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 5ed o Fawrth, 2026.

1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Noder fod her benodol eleni wrth lunio'r calendr cyfarfodydd. Mae'r cylch pwyllgorau traddodiadol wythnos yn hwyrach yn cychwyn na'r arfer yn sgil etholiadau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y bydd 'cyfnod cyn etholiad' unwaith eto ddiwedd 26/27 cyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027. Rydym wedi ceisio cadw llygad ar hynny gan gywasgu rhai o'r pwyllgorau i gyfnod llai, hynny yw o fewn 10 mis. Ystyriwyd cyfarfodydd craffu, gan geisio eu cynnal yn gynt yn y cylch pwyllgorau er mwyn sicrhau na effeithir ar y gwaith y gellir ei gyflawni.

1.5 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau hyd y gellir nad oes gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd rhanbarthol megis cyfarfodydd Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, er nad yw holl ddyddiadau 2026/27 yn wybyddus eto. Rhaid hefyd cadw mewn cof fod mwy o gyfarfodydd rhanbarthol gan Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd bellach.

1.6 Ymgynghorwyd yn ogystal gyda’r Awdurdod Tan ac mae addasiadau wedi ei gwneud i rai dyddiadau er mwyn ceisio osgoi gwrthdaro o ran dyddiadau. Nid oedd modd i ni addasu pob dyddiad yn anffodus, ac mae gwrthdaro ar ddau ddyddiad sy’n effeithio’r Pwyllgor Cynllunio.

1.5 Rydym wedi parhau i nodi dyddiad Sesiwn Briffio i Aelodau pob mis yn ogystal â Diwrnod Hyfforddiant misol, fel bod y Cynghorwyr yn cael digon o rybudd am y dyddiadau. Mae’r trefniant newydd i weld wedi gweithio dros y flwyddyn a fu, gyda gwaith o adnabod a blaenoriaethu sesiynau hyfforddiant yn digwydd yn gyson. Hoffwn dynnu eich sylw nad oes sesiwn briffio na hyfforddiant wedi ei raglennu ar gyfer mis Mai, mae hyn oherwydd yr angen i flaenoriaethu pwyllgorau mewn cyfnod byr iawn o amser. Byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i geisio trefnu’r Sesiynau Briffio neu Hyfforddiant ar y dyddiadau hynny lle bo modd, gan nodi fod posibilrwydd i orfod gwyro i ddyddiadau eraill petai hyfforddwyr neu swyddogion allweddol ddim ar gael.

## 2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2026/27

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2026/27

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth argymell i’r Cyngor Llawn fabwysiadu’r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27.